

PUGH, Syr IDWAL VAUGHAN (1918-2010), gwas sifil, Comisiynydd Seneddol dros Weinyddiad (Ombwdsman) (1976-79)

Enw: Idwal Vaughan Pugh

Dyddiad geni: 1918

Dyddiad marw: 2010

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: gwas sifil, Comisiynydd Seneddol dros Weinyddiad (Ombwdsman) (1976-79)

Maes gweithgaredd: Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil

Awdur: Mary Auronwy James

Ganed Idwal Pugh ar 10 Chwefror 1918 ym Mlaenau Ffestiniog, Meirionnydd, yr hynaf o bum mab Rhys Pugh (chwarelwr, wedyn tocynnwr bws) a'i wraig, Elizabeth (athrawes). Magwyd ef gan berthnasau yn Nhonpentre yn y Rhondda, Morgannwg. Mynychodd Ysgol Ramadeg Y Bontfaen ac enillodd ysgoloriaeth i Goleg St Ioan, Rhydychen, lle y graddiodd yn Mods and Greats (clasuron) yn 1940 cyn ymuno â'r Royal Army Service Corps. Gwasnaethodd gyda'r 7th Armoured Division (y Desert Rats) yn El Alamein, yn Sisili a'r Eidal, ac yr oedd yn uwchgapten pan ryddhawyd ef o'r fyddin yn 1946.

Wedyn ymunodd â'r Weinyddiaeth Hedfan Sifil. Cymrodd ran mewn trefnu'r awyrgludiad o Berlin, a bu'n ddiweddarach yn ddirprwy/gynrychiolydd i'r International Civil Aviation Organisation ym Montreal. Yn 1956 dyrchafwyd ef yn ysgrifennydd cynorthwyol a bu'n gysylltiedig â threfnu dogni petrol wedi cau camlas Swes a achosodd i gyfarfodydd cynhyrfus gael eu cynnal gan gludwyr a thrafaelwyr. Ar ô dwy flynedd yn attaché awyr sifil yn Washington, dyrchafwyd ef yn is-ysgrifennydd yn 1959.

Ddwly flynedd yn ddiweddarach aeth i'r Weinyddiaeth Dai a Llywodraeth Leol. Yn 1964 bu'n gadeirydd ymchwiliad rhyng-adrannol i ffyrdd o foderneiddio'r system gynllunio; derbyniwyd, yn fras, gan y Llywodraeth Lafur, ei adroddiad a argymhellai gael llai o awdurdodau cynllunio a rhai mwy annibynnol.

Yn 1971 dyrchafwyd ef yn ysgrifennydd parhaol yn y Swyddfa Gymreig, ond dychwelodd i'r Weinyddiaeth Dai a Llywodraeth Leol yn 1973 pan ddaeth yn rhan o'r Adran Amgylchfyd anferth, lle y daeth yn Is-ysgrifennydd parhaol. O Ebrill 1976 hyd Chwefror 1979 yr oedd yn Gomisiynydd Seneddol dros Weinyddiad (Ombwdsman) a Chomisiynydd y Gwasanaeth Lechyd. Prif ddyletswydd yr ombwdsman oedd ymchwilio i gwynion yn erbyn y llywodraeth, a chyfrifoldeb cyffelyb ynglyn â'r Gwasanaeth Lechyd Cenedlaethol. Y canlyniad fu iddo feirniadu'r anghwrteisi a thwyll neu gamweinyddu a ddarganfu yn y llywodraeth, gan arwain at ymddiheuriadau cyhoeddus gan weinidogion y llywodraeth am yr anghyfiawnderau a achoswyd gan eu staff. Yn 1979 cyhoeddwyd rheolau newydd yn gwahardd gweision sifil rhag atal budd-daliadau yr oedd gan berson hawl iddynt, er na ddigolledwyd pob un a ddiodefodd yn ariannol trwy gamweinyddiad gan rai asiantaethau cyfeiliornus megis y Cyllid Gwladol. Tynnodd sylw hefyd at drahauster a chamdriniaeth yn y Gwasanaeth Lechyd Cenedlaethol.

Daeth wedyn yn gadeirydd Cwmni Hodge a Chyllid Hodge, Caerdydd, a chadeirydd Corfforaeth Datblygu Cymru (1980-83). Am naw mlynedd bu'n gyfarwyddwr y Standard Chartered Bank a Chymdeithas Adeiladu Halifax (1979-88).

Yr oedd yn bianydd medrus ac ar ô symud o Gaerdydd i Rhydychen mynychodd gwrs Cyfansoddi yn y brifysgol. Gwasanaethodd yn gadeirydd y Coleg Cerdd Cenedlaethol Brenhinol (1988-1992), a bu'n llywydd Coleg Harlech a Chlwb Busnes Caerdydd ac is-lywydd Coleg y Brifysgol, Abertawe.

Ymhlith yr anrhydeddau a dderbyniodd yr oedd: ei benodi'n CB yn 1967, ei wneud yn farchog yn 1972 a'i ethol yn Gymrawd Anrhydeddus Coleg St Ioan, Rhydychen, yn 1979.

Yn 1946 priododd Mair Lewis (bu farw yn 1985); bu iddynt fab a merch. Bu ef farw 21 Ebrill 2010.

Awdur

Dr Mary Auronwy James

Ffynonellau

Who's who?, 2010

Debrett's Distinguished People of Today (1990)

Debrett's People of Today, 2002

The Times, 11 Mai 2010

The Independent, 1 Mehefin 2010

The Daily Telegraph, 15 Mehefin 2010

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q5989881

Dyddiad cyhoeddi: 2012-06-13

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nodiwr gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government